**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor**

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad STD-01-99

Dyddiad: 22 Gorffennaf 1999

Amser: 2pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

*Aelodau*

Nick Bourne (Cadeirydd) Canolbarth a Gorllewin Cymru

Janet Davies Gorllewin De Cymru

Brian Hancock Islwyn

Gareth Jones Conwy

Richard Edwards Preseli Sir Benfro

Val Feld, Dwyrain Abertawe

John Griffiths Dwyrain Casnewydd

Karen Sinclair De Clwyd

*Swyddogion*

Bryan Mitchell Clerc

Julie Grant Dirprwy Glerc

Ymddiheuriadau ac Eilyddion:

Dim. Nid oedd Christine Humphreys yn bresennol.

**Eitem 1 Sylwadau agoriadol y Cadeirydd (Eitem ar lafar)**

1. Agorodd y Cadeirydd gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau, gan dynnu sylw'r aelodau at y Rheolau Sefydlog a'u perthnasedd i'r Pwyllgor wrth iddo weithredu ei fusnes, ac o ran materion domestig, gan gynnwys gweithio gyda'r offer.

<u>Gweithredu:</u> Yr ysgrifenyddiaeth i ymchwilio i'r posibilrwydd o gael meicroffonau "agored" ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Eitem 2: Rôl, cylch gwaith etc. y Pwyllgor**

2. Trafododd y Pwyllgor STD-01-01-99 "Gweithredu'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad".

3. Pwysleisiodd y Cadeirydd bod cylch gwaith y pwyllgor wedi'i nodi yn eglur yn y rheolau sefydlog, ac mai'r mater o dan sylw oedd y cynnig i'r Pwyllgor gyfarfod yn chwarterol, ac ar adegau eraill pan fyddai angen. Cytunwyd ar hyn.

4. Roedd peth trafodaeth yngln â'r dull priodol ar gyfer galw cyfarfodydd ad hoc, a'r mathau o faterion a allai beri iddynt gael eu galw. Cytunwyd y byddai'r rhan fwyaf o'r busnes yn cael ei drafod trwy'r llwybrau arferol sef ei ychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Gellir trafod busnes brys neu bwysig yn anffurfiol gyda'r cadeirydd ac, a bwrw bod o leiaf 2 neu 3 o'r aelodau yn cefnogi'r cais, gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol. Byddai mwyafrif y cyfarfodydd ad hoc yn codi o faterion sy'n cael eu cyfeirio at y pwyllgor gan y Llywydd.

5. Cytunwyd ymhellach y byddai'r Pwyllgor yn rhagweithiol yn ei ddyletswydd i "ystyried unrhyw fater o egwyddor yngln ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol" (Rheol Sefydlog 16.1). Byddai'n cadw golwg ar yr angen am newidiadau i'r amrywiol godau, y rheolau sefydlog, arferion etc a byddai'n defnyddio'i adroddiad blynyddol fel modd i geisio cymeradwyaeth y Cynulliad i'w gynigion. Cafwyd cydnabyddiaeth o'r perygl posibl i'r Pwyllgor ragfarnu ymchwiliadau a chytunwyd felly na fyddai'r Aelodau yn dod ag achosion unigol gerbron y Pwyllgor nac yn gweithredu mewn unrhyw fodd a allai olygu ei fod yn destun "sïon".

6. Cadarnhaodd yr ysgrifenyddiaeth, yng ngoleuni profiadau diweddar, bod y Llywydd yn ystyried y modd mwyaf effeithiol o ymdrin â honiadau o dorri cyfrinachedd.

7. Nododd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor gofio bod angen cyfrinachedd a sensitifrwydd, yn enwedig wrth ymdrin ag ymholiadau gan y wasg.

**Eitem 3: Y Gofrestr Fuddiannau**

8. Trafododd y Pwyllgor STD-01-02-99 "Cofrestr Buddiannau Aelodau".

9. Cytunwyd:

- Y byddai'r gofrestr ddrafft yn cael ei hail-ddosbarthu i'r Aelodau yn fuan gan roi cyfle ychwanegol iddynt addasu neu ychwanegu at eu datganiadau cyn i'r gofrestr gael ei chyhoeddi.
- Dylai'r gofrestr gael ei chyhoeddi yn ystod ail neu drydedd wythnos mis Awst yn hytrach nag ym mis Medi yn ôl yr hyn a awgrymir yn y papur.

10. Cafwyd peth trafodaeth yngln â dymunoldeb a dichonoldeb gofyn i aelodau ddatgan aelodaeth o glybiau. Mynegwyd pryder yn benodol yngln â'r Cardiff County Club. Mae aelodaeth y clwb hwnnw yn cynnwys amrediad eang o bobl amlwg mewn bywyd cyhoeddus. Derbyniwyd y byddai anawsterau yn codi wrth geisio creu diffiniad o "glwb" a fyddai'n gynaliadwy, a hefyd cytunwyd y gallai fod yna berygl o dramgwyddo yn erbyn gofynion Confensiwn Hawliau Dynol Ewrop. Cytunwyd bod y mater yn gwarantu ystyriaeth bellach.

<u>Gweithredu:</u> Yr Ysgrifenyddiaeth i drafod yr eitem gyda'r Cadeirydd a'r aelodau er mwyn trefnu trafodaeth bellach ar y mater.

**Eitem 4: Cynghorydd Annibynnol Y Cynulliad**

11. Trafododd y Pwyllgor STD-01-03-99.

12. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y berthynas rhwng y Llywydd a'r Cynghorydd a pherthynas y diwethaf â'r Pwyllgor. Roedd pryder yngln ag a fyddai gwrthdaro yn gallu digwydd pe byddai gan y cynghorydd rôl dwbl.

13. Gofynnodd y papur gyfres o gwestiynau:

*A ddylai'r cynghorydd helpu'r Llywydd i gynnal yr ymchwiliad cychwynnol i*

*gynion a gyfeiriwyd at y Cynulliad?*

*Cytunodd y Pwyllgor fod hyn yn synhwyrol, ond mater i'r Llywydd fyddai hyn yn y pen-draw*

*A ddylai'r cynghorydd fod yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion?*

*A ddylai fod gan y cynghorydd swyddogaethau mewn perthynas â'r tasgau eraill y mae gofyn i'r Pwyllgor eu gwneud yn unol â'r Rheolau Sefydlog*

Roedd y Pwyllgor am sicrhau na fyddai'r cynghorydd, a fyddai hefyd yn cynghori'r Llywydd, yn tanseilio ei rôl. Eglurodd yr Ysgrifenyddiaeth bod yr argymhelliad yn y papur yn seiliedig ar fodel y Comisiynydd Seneddol. Y bwriad oedd bod y cynghorydd yn cymryd baich yr ymchwil ffeithiol oddi ar y Pwyllgor, gan ei adael yn rhydd i ganolbwyntio ar ystyried y dystiolaeth ffeithiol, cyrraedd ei gasgliadau ei hun a gosod adroddiad gerbron y Cynulliad yn cynnwys ei argymhellion.

Cynhaliwyd trafodaeth fer ar amseru a dull recriwtio ar gyfer y cynghorydd. Nodwyd yr angen i ddechrau llunio swydd-ddisgrifiad, ond barn y mwyafrif oedd bod angen ystyriaeth bellach ar rôl y cynghorydd yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

*A ddylai'r Pwyllgor gael ei gynghorydd ei hun?*

Cytunwyd na fyddai'r Pwyllgor yn penodi ei gynghorydd ei hun ar hyn o bryd ond cadwyd yr hawl i adolygu'r sefyllfa yn hwyrach.

<u>Gweithredu:</u>

**Y Cadeirydd –**

Trefnu cyfarfod yn fuan gyda'r Llywydd i drafod anghenion y ddwy ochr o ran y cynghorydd.

**Yr Ysgrifenyddiaeth –**

(i) Llunio papur yn nodi'r dewisiadau ar gyfer pob cam o ymchwiliad; yn amlinellu rôl bosibl Cynghorydd Annibynnol ar bob cam; ac yn llunio

swydd-ddisgrifiad drafft.

(ii) Ymchwilio i'r posibilrwydd o gyfarfod yn gynnar ym mis Medi i drafod y mater hwn.

**Yr Aelodau –**

Rhoi gwybod i'r Ysgrifenyddiaeth os oes barn ganddynt ar y fanyleb person.

**Eitem 5: Peidio â chofrestru/datgan buddiannau**

14. Trafododd y Pwyllgor STD-01-04-99 "Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 4 – Cymryd Rhan Mewn Trafodion a Pheidio â Chydymffurfio".

15. Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Pwyllgor at yr hyn oedd yn ymddangos fel anghywirdeb yn 10 (i) ar y papur a chadarnhaodd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ceisio cyngor cyfreithiol pellach er mwyn penderfynu a yw pob achos o dorri adran 72 o'r Ddeddf yn drosedd.

16. Mynegwyd pryder yngln â darpariaethau llawdrwm y Ddeddf. Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth bod trafodaethau gyda'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cadarnhau nad oedd modd arfer disgresiwn, megis gweithredu terfyn *de minimis*.

<u>Gweithredu:</u> Yr Ysgrifenyddiaeth i geisio cyngor cyfreithiol ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

**Eitem 6 : Unrhyw Fater Arall a'r Cyfarfod Nesaf**

17. Trafodwyd yn fyr rôl y Pwyllgor mewn perthynas â safonau ymddygiad mewn bywyd gwleidyddol yn fwy cyffredinol. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y mater hwn yn bennaf y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor yn ôl yr hyn a nodir yn y rheolau sefydlog ond efallai – ar adegau – y bydd croes-gyfeiriad i'w ddyletswydd o dan 16.1 (iii).

18. Nodwyd oherwydd y pwysau ar amserlen y pwyllgorau nad oedd llawer o leoedd gwag ar gyfer trefnu'r cyfarfod nesaf. Gan osod o'r neilltu y cais ychwanegol am gyfarfod i drafod rôl cynghorydd y Cynulliad, yr oedd yn ymddangos yn debygol y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yng nghanol mis Hydref.

20. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu manylion gyda hyn.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor**

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad STD-01-99

Dyddiad: 22 Gorffennaf 1999

Amser: 2pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

*Aelodau*

Nick Bourne (Cadeirydd) Canolbarth a Gorllewin Cymru

Janet Davies Gorllewin De Cymru

Brian Hancock Islwyn

Gareth Jones Conwy

Richard Edwards Preseli Sir Benfro

Val Feld, Dwyrain Abertawe

John Griffiths Dwyrain Casnewydd

Karen Sinclair De Clwyd

*Swyddogion*

Bryan Mitchell Clerc

Julie Grant Dirprwy Glerc

Ymddiheuriadau ac Eilyddion:

Dim. Nid oedd Christine Humphreys yn bresennol.

**Eitem 1 Sylwadau agoriadol y Cadeirydd (Eitem ar lafar)**

1. Agorodd y Cadeirydd gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau, gan dynnu sylw'r aelodau at y Rheolau Sefydlog a'u perthnasedd i'r Pwyllgor wrth iddo weithredu ei fusnes, ac o ran materion domestig, gan gynnwys gweithio gyda'r offer.

<u>Gweithredu:</u> Yr ysgrifenyddiaeth i ymchwilio i'r posibilrwydd o gael meicroffonau "agored" ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Eitem 2: Rôl, cylch gwaith etc. y Pwyllgor**

2. Trafododd y Pwyllgor STD-01-01-99 "Gweithredu'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad".

3. Pwysleisiodd y Cadeirydd bod cylch gwaith y pwyllgor wedi'i nodi yn eglur yn y rheolau sefydlog, ac mai'r mater o dan sylw oedd y cynnig i'r Pwyllgor gyfarfod yn chwarterol, ac ar adegau eraill pan fyddai angen. Cytunwyd ar hyn.

4. Roedd peth trafodaeth yngln â'r dull priodol ar gyfer galw cyfarfodydd ad hoc, a'r mathau o faterion a allai beri iddynt gael eu galw. Cytunwyd y byddai'r rhan fwyaf o'r busnes yn cael ei drafod trwy'r llwybrau arferol sef ei ychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Gellir trafod busnes brys neu bwysig yn anffurfiol gyda'r cadeirydd ac, a bwrw bod o leiaf 2 neu 3 o'r aelodau yn cefnogi'r cais, gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol. Byddai mwyafrif y cyfarfodydd ad hoc yn codi o faterion sy'n cael eu cyfeirio at y pwyllgor gan y Llywydd.

5. Cytunwyd ymhellach y byddai'r Pwyllgor yn rhagweithiol yn ei ddyletswydd i "ystyried unrhyw fater o egwyddor yngln ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol" (Rheol Sefydlog 16.1). Byddai'n cadw golwg ar yr angen am newidiadau i'r amrywiol godau, y rheolau sefydlog, arferion etc a byddai'n defnyddio'i adroddiad blynyddol fel modd i geisio cymeradwyaeth y Cynulliad i'w gynigion. Cafwyd cydnabyddiaeth o'r perygl posibl i'r Pwyllgor ragfarnu ymchwiliadau a chytunwyd felly na fyddai'r Aelodau yn dod ag achosion unigol gerbron y Pwyllgor nac yn gweithredu mewn unrhyw fodd a allai olygu ei fod yn destun "sïon".

6. Cadarnhaodd yr ysgrifenyddiaeth, yng ngoleuni profiadau diweddar, bod y Llywydd yn ystyried y modd mwyaf effeithiol o ymdrin â honiadau o dorri cyfrinachedd.

7. Nododd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor gofio bod angen cyfrinachedd a sensitifrwydd, yn enwedig wrth ymdrin ag ymholiadau gan y wasg.

**Eitem 3: Y Gofrestr Fuddiannau**

8. Trafododd y Pwyllgor STD-01-02-99 "Cofrestr Buddiannau Aelodau".

9. Cytunwyd:

- Y byddai'r gofrestr ddrafft yn cael ei hail-ddosbarthu i'r Aelodau yn fuan gan roi cyfle ychwanegol iddynt addasu neu ychwanegu at eu datganiadau cyn i'r gofrestr gael ei chyhoeddi.
- Dylai'r gofrestr gael ei chyhoeddi yn ystod ail neu drydedd wythnos mis Awst yn hytrach nag ym mis Medi yn ôl yr hyn a awgrymir yn y papur.

10. Cafwyd peth trafodaeth yngln â dymunoldeb a dichonoldeb gofyn i aelodau ddatgan aelodaeth o glybiau. Mynegwyd pryder yn benodol yngln â'r Cardiff County Club. Mae aelodaeth y clwb hwnnw yn cynnwys amrediad eang o bobl amlwg mewn bywyd cyhoeddus. Derbyniwyd y byddai anawsterau yn codi wrth geisio creu diffiniad o "glwb" a fyddai'n gynaliadwy, a hefyd cytunwyd y gallai fod yna berygl o dramgwyddo yn erbyn gofynion Confensiwn Hawliau Dynol Ewrop. Cytunwyd bod y mater yn gwarantu ystyriaeth bellach.

<u>Gweithredu:</u> Yr Ysgrifenyddiaeth i drafod yr eitem gyda'r Cadeirydd a'r aelodau er mwyn trefnu trafodaeth bellach ar y mater.

**Eitem 4: Cynghorydd Annibynnol Y Cynulliad**

11. Trafododd y Pwyllgor STD-01-03-99.

12. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y berthynas rhwng y Llywydd a'r Cynghorydd a pherthynas y diwethaf â'r Pwyllgor. Roedd pryder yngln ag a fyddai gwrthdaro yn gallu digwydd pe byddai gan y cynghorydd rôl dwbl.

13. Gofynnodd y papur gyfres o gwestiynau:

*A ddylai'r cynghorydd helpu'r Llywydd i gynnal yr ymchwiliad cychwynnol i*

*gynion a gyfeiriwyd at y Cynulliad?*

*Cytunodd y Pwyllgor fod hyn yn synhwyrol, ond mater i'r Llywydd fyddai hyn yn y pen-draw*

*A ddylai'r cynghorydd fod yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion?*

*A ddylai fod gan y cynghorydd swyddogaethau mewn perthynas â'r tasgau eraill y mae gofyn i'r Pwyllgor eu gwneud yn unol â'r Rheolau Sefydlog*

Roedd y Pwyllgor am sicrhau na fyddai'r cynghorydd, a fyddai hefyd yn cynghori'r Llywydd, yn tanseilio ei rôl. Eglurodd yr Ysgrifenyddiaeth bod yr argymhelliad yn y papur yn seiliedig ar fodel y Comisiynydd Seneddol. Y bwriad oedd bod y cynghorydd yn cymryd baich yr ymchwil ffeithiol oddi ar y Pwyllgor, gan ei adael yn rhydd i ganolbwyntio ar ystyried y dystiolaeth ffeithiol, cyrraedd ei gasgliadau ei hun a gosod adroddiad gerbron y Cynulliad yn cynnwys ei argymhellion.

Cynhaliwyd trafodaeth fer ar amseru a dull recriwtio ar gyfer y cynghorydd. Nodwyd yr angen i ddechrau llunio swydd-ddisgrifiad, ond barn y mwyafrif oedd bod angen ystyriaeth bellach ar rôl y cynghorydd yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

*A ddylai'r Pwyllgor gael ei gynghorydd ei hun?*

Cytunwyd na fyddai'r Pwyllgor yn penodi ei gynghorydd ei hun ar hyn o bryd ond cadwyd yr hawl i adolygu'r sefyllfa yn hwyrach.

<u>Gweithredu:</u>

**Y Cadeirydd –**

Trefnu cyfarfod yn fuan gyda'r Llywydd i drafod anghenion y ddwy ochr o ran y cynghorydd.

**Yr Ysgrifenyddiaeth –**

(i) Llunio papur yn nodi'r dewisiadau ar gyfer pob cam o ymchwiliad; yn amlinellu rôl bosibl Cynghorydd Annibynnol ar bob cam; ac yn llunio

swydd-ddisgrifiad drafft.

(ii) Ymchwilio i'r posibilrwydd o gyfarfod yn gynnar ym mis Medi i drafod y mater hwn.

**Yr Aelodau –**

Rhoi gwybod i'r Ysgrifenyddiaeth os oes barn ganddynt ar y fanyleb person.

**Eitem 5: Peidio â chofrestru/datgan buddiannau**

14. Trafododd y Pwyllgor STD-01-04-99 "Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 4 – Cymryd Rhan Mewn Trafodion a Pheidio â Chydymffurfio".

15. Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Pwyllgor at yr hyn oedd yn ymddangos fel anghywirdeb yn 10 (i) ar y papur a chadarnhaodd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ceisio cyngor cyfreithiol pellach er mwyn penderfynu a yw pob achos o dorri adran 72 o'r Ddeddf yn drosedd.

16. Mynegwyd pryder yngln â darpariaethau llawdrwm y Ddeddf. Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth bod trafodaethau gyda'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cadarnhau nad oedd modd arfer disgresiwn, megis gweithredu terfyn *de minimis*.

<u>Gweithredu:</u> Yr Ysgrifenyddiaeth i geisio cyngor cyfreithiol ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

**Eitem 6 : Unrhyw Fater Arall a'r Cyfarfod Nesaf**

17. Trafodwyd yn fyr rôl y Pwyllgor mewn perthynas â safonau ymddygiad mewn bywyd gwleidyddol yn fwy cyffredinol. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y mater hwn yn bennaf y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor yn ôl yr hyn a nodir yn y rheolau sefydlog ond efallai – ar adegau – y bydd croes-gyfeiriad i'w ddyletswydd o dan 16.1 (iii).

18. Nodwyd oherwydd y pwysau ar amserlen y pwyllgorau nad oedd llawer o leoedd gwag ar gyfer trefnu'r cyfarfod nesaf. Gan osod o'r neilltu y cais ychwanegol am gyfarfod i drafod rôl cynghorydd y Cynulliad, yr oedd yn ymddangos yn debygol y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yng nghanol mis Hydref.

20. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu manylion gyda hyn.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**